Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response


| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 23.02.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Cydlynu trefniadau derbyn i ysgolion** |


**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**
Teimlwn fod potensial gan y cynllun derbyn cydlynol arfaethedig yng Nghymru i fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd ac ansicrwydd penodol yn y system bresennol ac rydym yn cefnogi'n fras y cynigion a gyflwynir yn yr ymgynghoriad hwn.

Manteision posibl:

- Bwriad y cynllun derbyn cydlynol yw symleiddio'r broses dderbyn a gallai hyn leihau'r amser sy'n cael ei dreulio gan rieni ac awdurdodau derbyn, a lleihau'r ymdrech ganddynt.
- Gall y system derbyn cydlynol ostwng nifer yr apeliadau, oherwydd byddai rhieni'n cael eu cyfyngu i un cynnig.
- Gall y system helpu i neilltuo adnoddau'n fwy effeithlon trwy atal dal gafael ar nifer o leoedd, gan sicrhau bod lleoedd ysgol yn cael eu neilltuo'n brydlon.
- Mae mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnwys esboniad o'r camau yn y broses o wneud cais am le ysgol yn eu prosbectws yn sicrhau bod gan rieni a dysgwyr wybodaeth glir am y trefniadau derbyn newydd.

Fodd bynnag, rydym hefyd o'r farn bod anfanteision posibl i'r cynigion:

- Gall rhieni amgyffred bod cael eu cyfyngu i gael cynnig un lle ysgol yn ddiffyg dewis.
- Er bod y cynnig yn haeru nad yw'r cynllun cydlynol yn dileu annibyniaeth cyrff llywodraethu mewn penderfyniadau derbyn, gall fod pryderon ymhlith y cyrff hyn am yr effaith bosibl ar eu gallu i reoli eu derbyniadau yn annibynnol.
- Gallai gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio a gweithredu'r cynllun derbyn cydlynol osod heriau o ran gorfodi, yn enwedig os bydd unrhyw awdurdod yn gwrthwynebu'r newid neu'n cael trafferth â'r adnoddau i gydymffurfio'n llawn.

Credwn fod cymhwyso'r cynllun i bob awdurdod yn creu cynllun derbyn cydlynol, unffurf, a byddai'n sicrhau cysondeb yn y broses ymgeisio. Gallai hyn arwain at brofiad cyffredin i rieni a dysgwyr ar draws Cymru, gan ei gwneud hi'n haws iddynt ddeall y system dderbyn a'i llywio.

Er y gall fod goblygiadau ariannol cychwynnol posibl i awdurdodau lleol wrth gyflwyno'r trefniadau newydd, ar y cyfan, teimlwn y byddai'r cynigion yn arwain at ostyngiad mewn costau a threulio llai o amser yn delio ag apeliadau trefniadau derbyn.

Teimlwn fod angen ystyried goblygiadau cynnig un lle ysgol yn unig i rieni yn ofalus, os nad yw eu dewis cyntaf o ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael ac nad yw eu hail ddewis yn ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1 –** A ydych yn cytuno â'r cynnig i osod gofyniad ar awdurdodau lleol i gydlynu trefniadau derbyn disgyblion ar gyfer pob ysgol a gynhelir yn eu hardal?

| Cytuno | ✓ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn 2 –** Beth yn eich barn chi yw manteision neu anfanteision cydlynu trefniadau derbyn ysgolion?

| |
|---|
| Mae potensial gan y cynllun derbyn cydlynol yng Nghymru i fynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd ac ansicrwydd penodol yn y system bresennol. Fodd bynnag, mae angen ei ystyried yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni lles pennaf rhieni a dysgwyr, ac yn parchu annibyniaeth cyrff llywodraethu.<br><br>Mae amrywiaeth o fanteision posibl:<br><br>• Bwriad y cynllun derbyn cydlynol yw symleiddio'r broses dderbyn a gallai hyn leihau'r amser sy'n cael ei dreulio gan rieni ac awdurdodau derbyn, a lleihau'r ymdrech ganddynt.<br>• Gall y system derbyn cydlynol ostwng nifer yr apeliadau, oherwydd byddai rhieni'n cael eu cyfyngu i un cynnig.<br>• Gall y system helpu i neilltuo adnoddau'n fwy effeithlon trwy atal dal gafael ar nifer o leoedd, gan sicrhau bod lleoedd ysgol yn cael eu neilltuo'n brydlon.<br>• Mae mynnu bod awdurdodau lleol yn cynnwys esboniad o'r camau yn y broses o wneud cais am le ysgol yn eu prosbectws yn sicrhau bod gan rieni a dysgwyr wybodaeth glir am y trefniadau derbyn newydd.<br><br>Mae anfanteision posibl:<br><br>• Gall rhieni amgyffred bod cael eu cyfyngu i gael cynnig un lle ysgol yn ddiffyg dewis, er y byddem yn rhagweld y byddai hyn yn effeithio ar nifer bach o ysgolion yn unig.<br>• Er bod y cynnig yn haeru nad yw'r cynllun cydlynol yn dileu annibyniaeth cyrff llywodraethu mewn penderfyniadau derbyn, gall fod pryderon ymhlith y cyrff hyn am yr effaith bosibl ar eu gallu i reoli eu derbyniadau yn annibynnol.<br>• Gallai gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio a gweithredu'r cynllun derbyn cydlynol osod heriau o ran gorfodi, yn enwedig os bydd unrhyw awdurdod yn gwrthwynebu'r newid neu'n cael trafferth â'r adnoddau i gydymffurfio'n llawn. |

**Cwestiwn 3** – A ddylai'r gofyniad i ddatblygu cynllun ar gyfer cydlynu trefniadau derbyn ysgolion gael ei osod ar bob awdurdod lleol neu ar awdurdodau lleol penodol yn unig yng Nghymru? Os dim ond ar awdurdodau lleol penodol yn unig y dylid gosod y gofyniad, ar ba awdurdodau lleol y dylid ei osod?

| Pob awdurdod lleol | ✓ | Awdurdodau lleol penodol | ☐ |
|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae'r penderfyniad ynghylch p'un a ddylai'r cynllun derbyn cydlynol gael ei osod ar bob awdurdod lleol neu ar awdurdodau lleol penodol yn unig yn cynnwys cyfaddawd rhwng cysondeb a hyblygrwydd. Dylid ystyried yn ofalus yr effaith bosibl ar annibyniaeth leol a |

| |
|---|
| thegwch. Fodd bynnag, mae cymhwyso'r cynllun i bob awdurdod yn creu cynllun derbyn cydlynol, unffurf, a byddai'n sicrhau cysondeb yn y broses ymgeisio. Gallai hyn arwain at brofiad cyffredin i rieni a dysgwyr ar draws Cymru, gan ei gwneud hi'n haws iddynt ddeall y system dderbyn a'i llywio. Hefyd byddai'n golygu bod pob dysgwyr, dim ots ble maen nhw yng Nghymru na maint yr awdurdod lleol, yn destun yr un broses dderbyn. Gallai hyn hyrwyddo tegwch a mynediad cyfartal i gyfleoedd addysgol ar draws y wlad. |

**Cwestiwn 4** – A ydych yn ystyried y bydd y rheoliadau arfaethedig yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol i awdurdodau lleol neu ysgolion? Os 'ydw', rhowch fanylion pellach am y costau hyn.

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Gallai cyflwyno cynllun derbyn cydlynol cenedlaethol arwain at gostau ychwanegol i awdurdodau lleol ar adeg pan mae awdurdodau lleol yn wynebu heriau ariannol mawr a thoriadau i'w gwasanaethau craidd. Gallai hyn olygu y byddai gweithredu unrhyw rai o'r cynigion yn anodd yn y tymor byr.<br>• Byddai awdurdodau lleol yn debygol o fod angen buddsoddi mewn hyfforddi staff a gall fod angen iddynt ddiweddaru systemau er mwyn gweithredu'r cynllun derbyn cydlynol newydd yn effeithiol.<br>• Bydd hysbysu rhieni, ysgolion a rhanddeiliaid eraill am y newidiadau i'r broses dderbyn yn gofyn am ymgyrch gyfathrebu, er enghraifft creu deunyddiau gwybodaeth neu gynnal cyfarfodydd. Byddai costau'n gysylltiedig â'r rhain i gyd.<br>• Gallai'r cydweithredu a'r cyfathrebu rhwng awdurdodau lleol, a rhwng awdurdodau lleol ac ysgolion sydd â'u trefniadau derbyn eu hunain, arwain at gostau uwch, fel y costau sy'n gysylltiedig â chydlynu a rhannu gwybodaeth. Er enghraifft, mae Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024, yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol 'cartref' i 'anfon manylion y cais ymlaen i'r awdurdod cynnal, ynghyd ag unrhyw wybodaeth ategol a ddarperir gan y rhiant' i awdurdod lleol cynnal. Hefyd, mae'r rheoliad arfaethedig (2024) yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i ddarparu 'y cais, ac unrhyw wybodaeth ategol a ddarperir gan y rhiant' i ysgolion lle'r corff llywodraethu (neu'r corff y mae'r corff llywodraethu wedi gwneud trefniadau gyda nhw) yw'r awdurdod derbyn. |

**Cwestiwn 5** – A ydych yn ystyried y bydd y rheoliadau arfaethedig yn arwain at unrhyw arbedion i awdurdodau lleol, ysgolion, rhieni neu ofalwyr? Os 'ydw', rhowch fanylion pellach am yr arbedion hyn.

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Mae potensial gan y cynllun derbyn arfaethedig i arbed costau i awdurdodau lleol.<br>• Nod y cynllun yw symleiddio'r broses dderbyn a, thrwy ddull wedi'i safoni, gallai awdurdodau dreulio llai o amser ac adnoddau yn rheoli'r broses dderbyn gyffredinol.<br>• Gan mai bwriad y cynllun yw atal rhieni rhag dal gafael ar nifer o gynigion, mae potensial i leoedd ysgol gael eu neilltuo'n fwy prydlon a byddai llai o ansicrwydd am y lleoedd sydd ar gael. Gallai'r effeithlonrwydd hwn arwain at arbedion costau yn gysylltiedig â rheoli adnoddau.<br>• Os bydd y cynllun cydlynol yn arwain at ostyngiad yn nifer yr apeliadau, gallai awdurdodau lleol arbed y costau sy'n gysylltiedig â rheoli ac ymateb i apeliadau. |

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol gynnwys crynodeb o gynllun cydlynol yr awdurdod lleol yn ei brosbectws cyfansawdd bob blwyddyn, ynghyd ag esboniad clir o'r camau yn y broses o wneud cais am le mewn ysgol?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Byddai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys crynodeb o'r cynllun cydlynol yn y prosbectws, ynghyd ag esboniad o'r broses ymgeisio, yn fuddiol.<br>• Mae cynnwys gwybodaeth am y cynllun cydlynol yn y prosbectws yn cynnig tryloywder i rieni. Bydd hyn yn caniatáu iddynt ddeall y broses a'r meini prawf ar gyfer derbyn i ysgolion, gan wneud penderfyniadau gwybodus am eu dewisiadau.<br>• Gallai gwybodaeth glir a hygyrch yn y prosbectws helpu i leihau unrhyw ansicrwydd, gan sicrhau bod gan rieni'r manylion i lywio'r broses ymgeisio ac apeliadau.<br>Fodd bynnag, er bod cynnwys gwybodaeth yn bwysig, mae sicrhau bod y crynodeb yn glir ac yn hygyrch yn hanfodol. Dylai'r iaith a ddefnyddir fod yn hawdd i gynulleidfa eang ei deall er mwyn osgoi dryswch. Dylid gofalu bod cydbwysedd yn cael ei daro o ran faint o wybodaeth sy'n cael ei chynnwys. Gallai gormod o wybodaeth lethu rhieni, ond gallai diffyg gwybodaeth olygu eu bod wedi drysu.<br>Yn ogystal â'r prosbectws, gallai awdurdodau lleol ystyried defnyddio sianeli cyfathrebu eraill, fel gwefannau a/neu'r cyfryngau cymdeithasol, i sicrhau bod sawl ffordd gan rieni o gael at y wybodaeth. |

**Cwestiwn 7** – Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y rheoliadau arfaethedig ar gydlynu trefniadau derbyn ysgolion ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gyda ni mewn unrhyw effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl fod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Dylai'r rheoliadau bwysleisio cyfathrebu clir a thryloywder, gan gynnwys rhannu pob gwybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Gallai hyn arwain at well dealltwriaeth ymhlith rhieni, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Cymraeg, yn bennaf. Byddai hyn yn cyd-fynd ag ymdrechion i hyrwyddo'r defnydd ar y Gymraeg a hygyrchedd.

Mae effeithiau negyddol posibl hefyd ar y Gymraeg os bydd awdurdodau lleol ond yn cynnig un lle ysgol i rieni, yn enwedig os bydd rhieni neu ofalwyr yn dewis ysgol cyfrwng Cymraeg fel dewis cyntaf ac ysgol cyfrwng Saesneg fel ail ddewis. Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn gallu cael at y cyfrwng iaith o'u dewis ar gyfer eu plentyn. Er enghraifft, yn aml, os na chaiff rhieni/gofalwyr gynnig yr ysgol cyfrwng Cymraeg fwyaf hygyrch oherwydd bod mwy o alw na lleoedd, gallant ddewis ysgol cyfrwng Saesneg fel eu hail ddewis. Mae hygyrchedd yn aml yn pennu'r penderfyniadau hyn gan rieni/gofalwyr ac mae llawer o awdurdodau lleol yn gweithio o hyd tuag at fynediad teg i addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 8 –** Yn eich barn chi, a fyddai modd ffurfio neu addasu'r rheoliadau arfaethedig ar gydlynu trefniadau derbyn ysgolion er mwyn sicrhau:

- eu bod yn cael effeithiau positif neu fwy positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg; neu
- nad ydynt yn cael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â'i thrin yn llai ffafriol na Saesneg?

**Sylw ategol**

Mae angen i'r trefniadau ei gwneud hi'n glir bod awdurdodau lleol, lle y bo'n berthnasol, yn sicrhau bod rhieni'n gallu dewis cyfrwng iaith yr ysgol maen nhw am ei chael i'w plant. Byddai'n ddefnyddiol petai'r trefniadau'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i gysylltu â rhieni neu ofalwyr os nad yw eu dewis cyntaf o ysgol cyfrwng Cymraeg ar gael, hyd yn oed os ydynt wedi datgan ysgol â chyfrwng iaith gwahanol fel ail ddewis, i sicrhau bod yr holl opsiynau addysg cyfrwng Cymraeg yn cael eu hystyried ar eu cyfer.

**Cwestiwn 9 –** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i'w rhoi:

1.

O dan Reoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2024, mae 1 (g) 'Gofynion Cynllun Cymhwysol' yn darparu bod 'rhaid i unrhyw hysbysiad bod cynnig i dderbyn plentyn i ysgol a gynhelir wedi ei dderbyn ddod i law'r awdurdod lleol o fewn 2 wythnos ar ôl dyddiad y cynnig i dderbyn plentyn i ysgol a gynhelir o dan y cynllun cymhwysol'.

Gallai rhoi pythefnos yn unig i rieni ymateb gael nifer o effeithiau negyddol. Gall rhieni fod ag ymrwymiadau gwaith neu bersonol sy'n ei gwneud hi'n heriol canolbwyntio ar benderfyniad mor bwysig o fewn cyfnod o bythefnos. Gall hyn fod yn waeth os bydd y teulu'n delio â phroblemau, fel salwch. Gallai teuluoedd sydd i ffwrdd o'r ysgol neu o'r wlad yn llwyr, er

enghraifft y rhai sy'n ymweld â gwlad arall am resymau crefyddol, golli'r ffenestr yn gyfan gwbl.

2.

Er bod adran 5 Rheoliadau Addysg (Cydlynu Trefniadau Derbyn Ysgolion a Diwygiadau Amrywiol (Cymru) 2024 yn nodi dyletswyddau corff llywodraethu o dan gynllun cymhwysol, nid yw'n cynnwys unrhyw amserlenni. Mae'n nodi 'rhaid i gynllun cymhwysol ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sy'n awdurdod derbyn ar gyfer ysgol a gynhelir: anfon ymlaen i awdurdod lleol yr ardal y mae ynddi fanylion unrhyw geisiadau a wneir yn uniongyrchol i'r ysgol a gynhelir yn y cylch derbyn arferol neu fel cais hwyr, ac unrhyw wybodaeth ategol a ddarperir gan y rhiant, ni waeth a yw'r rhiant sy'n gwneud y cais yn preswylio yn ardal yr awdurdod lleol hwnnw'.

Gallai'r diffyg amserlen glir effeithio'n negyddol ar drosglwyddo gwybodaeth yn brydlon i awdurdodau lleol, ac felly eu rhwystro rhag gallu gwneud penderfyniadau amserol am leoedd ysgol.

3.

Mae'n debygol o hyd y bydd nifer o rieni sy'n byw ar y ffiniau rhwng ardaloedd dau awdurdod lleol a fydd yn parhau i ddal gafael ar gynigion lluosog mewn ardaloedd awdurdodau lleol gwahanol ac, felly, awdurdodau derbyn gwahanol. Nid yw'r cynigion yn ystyried hyn o gwbl ar hyn o bryd.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych petai eich ymateb yn aros yn anhysbys, ticiwch yma: ☐